SGEMA

GLOBAL WELSH

# GORLLEWIN CYMRU

## CYRCHFAN DDELFRYDOL AR GYFER BUSNESAU



## Mae Cymru wrth galon y DU, yn adnabyddus am ei chefnogaeth gref i fusnesau a'i rôl arloesol mewn sectorau niferus.

Mae'r seilwaith yng Nghymru yn ddelfrydol ar gyfer anghenion busnes. Mae Cyflymu Cymru wedi cyflwyno band eang ffeibr cyflym ar draws y rhanbarth, gan ddarparu un o'r seilweithiau digidol mwyaf datblygedig yn Ewrop. Mae'r cysylltedd hwn, ynghyd â chysylltiadau trafnidiaeth ardderchog ar y ffyrdd, y rheilffyrdd a'r awyr i ddinasoedd mawr y DU ac Ewrop, yn gosod Cymru'n ganolbwynt cysylltiedig a hygyrch ar gyfer twf busnes.

Mae busnesau yng Nghymru yn elwa ar gostau cystadleuol iawn gan gynnwys rhent masnachol a phrisiau eiddo/tir is o gymharu â rhai rhannau eraill o'r DU. Ochr yn ochr â'r fantais ariannol hon, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig grantiau a chynlluniau cymhelliant, gan alluogi mynediad at gymorth ariannol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau fel sefydlu lleoliad cychwynnol, creu a diogelu swyddi, ymchwil a datblygu, a datblygu sgiliau.



# Y GORLLEWIN GWYCH

# 'WEST IS BEST'



Darganfyddwch pam mae gorllewin Cymru yn sefyll allan fel dewis blaenllaw i fusnesau sydd eisiau tyfu a ffynnu mewn cymuned gefnogol, fywiog

## GWELL ANSAWDD BYWYD

Mae amgylchedd gorllewin Cymru yn cynnig ansawdd bywyd uchel, gan gyfrannu at staff hapusach, mwy creadigol sy'n llawn cymhelliant ac ysbrydoliaeth.

## TROSIANT STAFF IS

Mae'r ymdeimlad o gymuned a'r ffordd o fyw yng ngorllewin Cymru yn helpu i greu teyrngarwch cryf gan weithwyr, sy'n arwain at gyfraddau trosiant staff is a dynameg gweithlu sefydlog.

## MWY O EFFAITH AR Y GYMUNED

Mae sefydlu eich busnes yng ngorllewin Cymru yn caniatáu cysylltiadau dyfnach â'r gymuned leol, sy'n arwain at effeithiau sylweddol, diriaethol sy'n aml yn cael eu colli mewn dinasoedd mwy.

## CADWYNI CYFLENWI CADARN

Mae'r ymrwymiad i bartneriaethau hirdymor sy'n gyffredin mewn lleoliad mwy gwledig yn cryfhau cadwyni cyflenwi, gan wella dibynadwyedd a chynaliadwyedd i fusnesau.

## MANTAIS DWYIEITHRWYDD

Mae'r defnydd o'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg nid yn unig yn cyfoethogi cyfathrebu ond hefyd yn meithrin sensitifrwydd diwylliannol sy'n amhrisiadwy mewn cysylltiadau busnes byd-eang. Mae bod yn ddwyieithog yn y cyd-destun hwn yn cynnig dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ehangach o ddiwylliannau amrywiol, gan wella trafodion busnes rhyngwladol.

## MANTEISIO AR RWYDWAITH GLOBALWELSH AR GYFER GRYMUSO'N LLEOL

Er bod y manteision economaidd hyn yn rhoi sylfaen gadarn, mae Cymru'n parhau i lywio heriau ehangach sy'n effeithio ar ei safle ar y llwyfan byd-eang. Mae Walter May, Prif Weithredwr GlobalWelsh, yn tanlinellu'r pwynt hwn, gan bwysleisio pwysigrwydd strategol manteisio ar y Cymry alltud er mwyn gwella hunaniaeth fyd-eang Cymru a denu mwy o fuddsoddiad.

## BWRLWM O GYDWEITHIO

Mae Cymru'n enghraifft o fodel llwyddiannus o gydweithio, lle mae prifysgolion, diwydiant a'r llywodraeth yn gweithio law yn llaw i ysgogi twf. Mae'r cydweithredu'n cynnwys hyrwyddo arloesedd, codi safonau, a hyrwyddo datblygu sgiliau. Mae maint unigryw Cymru'n cynnig y cyfuniad gorau posibl o ryng-gysylltedd a gallu ymchwil a datblygu helaeth, gan alluogi cwmnïau o bob maint i rannu arferion gorau, cyflymu arloesedd, a gwella rhyng-gysylltiadau cadwyni cyflenwi.

## DEWCH I DDATGLOI'R DYFODOL GYDA NI - SIR GÂR A CHEREDIGION

Ymunwch â Hyb Cysylltwr Sir Gâr a Cheredigion a dewch gyda ni ar daith drawsnewidiol sy'n cyfuno curiad bywiog creadigrwydd, arloesedd a thraddodiad ar draws y ddwy sir.

> Er ei bod yn wir bod Cymru'n wynebu heriau wrth greu hunaniaeth fyd-eang unigryw a chystadlu am fewnfuddsoddiad o fewn y DU, mae'n bryd inni harneisio potensial ein caffaeliad mwyaf – y Cymry alltud. Gyda dros dair miliwn o unigolion yn fyd-eang, mae ein Cymry alltud yn cynrychioli llu o eiriolwyr newydd sy'n barod i ddyrchafu proffil Cymru ar lwyfan y byd.
>
> Walter May, Prif Weithredwr GlobalWelsh

> Gyda chefnogaeth Cronfa Her ARFOR, mae Sgema yn falch o gydweithio â phartneriaid allweddol ar y prosiect peilot hwn. Ein nod yw cysylltu entrepreneuriaid Cymreig rhyngwladol â busnesau yn Sir Gâr a Cheredigion, gan greu rhwydwaith ffyniannus sy'n hybu twf economaidd a threftadaeth ddiwylliannol. Mae'r prosiect hwn drwy lwyfan GlobalWelsh yn rhoi cyfle i gysylltu.
>
> Meilyr Ceredig, Cyfarwyddwr Sgema

> Fel canolbwynt ar gyfer creadigrwydd ac arloesedd digidol, mae'r Egin yn gyffrous i fod yn rhan o brosiect Hyb Cysylltwr. Mae'r bartneriaeth hon yn agor byd o gyfleoedd i fusnesau yn Sir Gâr a Cheredigion, gan gynnig llwyfan unigryw iddynt gysylltu â chymuned fyd-eang sy'n angerddol am Gymru a'i rhagolygon economaidd.
>
> Carys Ifan, Cyfarwyddwr Yr Egin

# DARGANFOD



Sut y gallwch chi ymwneud â busnesau ar draws y rhanbarth lle mae'r dyfodol yn cael ei saernïo gan fentrau arloesol i hybu ein dyfodol economaidd.

## MAGWRFA I ARLOESI

Darganfyddwch yr ôl troed academaidd cryf yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, sy'n cynnwys sefydliadau amlwg fel Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Coleg Sir Gâr, a Choleg Ceredigion. Mae'r ecosystem addysgol hon yn rhoi mynediad heb ei ail i fusnesau at arloesedd ac arbenigedd academaidd, gan greu diwylliant ffyniannus o entrepreneuriaeth a gefnogir gan bartneriaethau fel Bargen Twf Canolbarth Cymru.

## ARLOESI TRWY WYDDONIAETH A THECHNOLEG

Darganfyddwch sut mae Sir Gâr a Cheredigion yn arloesi yn y dyfodol gyda phrosiectau sy'n torri tir newydd. Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) sy'n arwain y gwaith o fynd i'r afael â heriau byd-eang trwy ymchwil mewn amaethyddiaeth gynaliadwy, addasu hinsawdd, a chadwraeth bioamrywiaeth. Yn ogystal, mae Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Pentre Awel, menter fawr gwerth £200 miliwn ar hyd arfordir Llanelli, yn uno iechyd, hamdden a'r byd academaidd. Mae'r prosiect allweddol hwn yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe yn enghraifft o arloesi, wedi'i gefnogi gan £40 miliwn o gyllid y Fargen Ddinesig gwerth £1.3 biliwn.



## CRYFHAU CYMUNEDAU TRWY IAITH A DIWYLLIANT

Cyfoethogir y gymuned trwy hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, yn amlwg trwy fentrau fel Yr Egin. Wedi'i lleoli ar gampws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin, mae'r Egin yn ganolbwynt creadigol a digidol. Mae wedi'i lleoli'n strategol o fewn taith 90 munud i tua 65% o holl siaradwyr Cymraeg Cymru. Ac mae wedi'i chynllunio i asio dychymyg creadigol â thalent. Bwriad Yr Egin yw gweithredu fel catalydd ar gyfer adfywio a hyrwyddo'r Gymraeg ledled Sir Gâr.



Er gwaethaf y datblygiadau addawol hyn, mae'r rhanbarth yn wynebu heriau sylweddol sy'n gofyn am ymdrechion unol i'w goresgyn.

> Mae'r prif heriau yn y rhanbarth yn cynnwys cyfyngiadau ariannol a materion iechyd cyffredin. Trwy ymgysylltu cryfach â'r Cymry ar wasgar, rydym yn gobeithio denu buddsoddiad ac arbenigedd iechyd i'r ardal, sy'n hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau hyn yn effeithiol.
>
> Yr Athro Rhys Thomas, Prif Weithredwr Virtual Ward Technologies

Gall eich cyfranogiad chwarae rhan hanfodol ac rydym yn eich gwahodd i ddod yn rhan o'r naratif hwn o arloesi, cynaliadwyedd a grymuso cymunedau. Hyb Cysylltwr Sir Gâr a Cheredigion yw eich porth i ddod yn rhan annatod o stori sy'n ailddiffinio'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn gysylltiedig â Chymru.

# YMUNWCH Â HANES TRAWSNEWID



GLOBAL WELSH

# YDYCH CHI'N BAROD?

SGEMA

Ydych chi'n barod i lunio'r dyfodol gyda ni?

Cymerwch gip ar fwy o fanylion ar sut y gallwch chi gymryd rhan neu cysylltwch â

**post@sgema.cymru**

'21 ARFOR CRONFA HER FAWR

globalwelsh.com

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**